

Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru Adroddiad Cynnydd, Medi 2018

Cyflwyniad

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru (ADSD) yn rhan o'i [Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai](#). Nod yr adnodd yw dwyn ynghyd ystod o ddata ar nodweddion, adeiladwaith, cyflwr ac effeithlonrwydd ynni'r stoc dai yng Nghymru er mwyn darparu sylfaen gadarn o dystiolaeth y gellir gwneud penderfyniadau ar ei sail. Bydd yr adnodd yn cyfuno data dienw, ar lefel eiddo unigol lle bo modd, ac fe'i defnyddir i lywio cyfeiriad polisi tai a'r amgylchedd, yn enwedig o ran cyflwr tai a thlodi tanwydd. Bydd y data ar gael hefyd er mwyn eu cysylltu â setiau ehangach o ddata i gyfoethogi'r sylfaen ehangach o dystiolaeth ar gyfer polisïau cymdeithasol cysylltiedig ym maes iechyd, addysg a'r economi, er enghraifft.

Cefndir

Ers nifer o flynyddoedd mae'r dystiolaeth am gyflwr y stoc dai yng Nghymru wedi bod yn ddibynnol ar ddata o [Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008](#). Mae'r data wedi cael eu defnyddio'n helaeth i gefnogi polisïau ym maes tai, effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd. Yn 2014-15 cynhaliodd Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru brosiect cwmpasu er mwyn gwella'r sylfaen o dystiolaeth am gyflwr tai yng Nghymru gan nad oedd y data hyn, mwyach, yn rhoi darlun o'r sefyllfa gyfredol. Er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau yn y sylfaen o dystiolaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu [Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai](#). Yn rhan o'r Rhaglen, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal [Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18](#). Cynhaliwyd gwaith maes, a oedd yn golygu cynnal archwiliadau eiddo o sampl o eiddo ledled Cymru, o Awst 2017 hyd Ebrill 2018 a disgwylir i'r prif ganlyniadau ar lefel genedlaethol gael eu cyhoeddi ym mis Tachwedd 2018. Er y bydd casglu data sylfaenol trwy gyfrwng y dull hwn yn unig yn mynd i'r afael â'r bylchau mewn dystiolaeth ar lefel uchel y mae angen rhoi blaenoriaeth iddynt, mae'n gyfyngedig o ran yr hyn y mae modd ei gasglu ac nid yw'n caniatáu inni ddefnyddio data sydd eisoes ar gael am y stoc dai. Dim ond amcangyfrifon ar lefel Cymru y gallwn eu creu ar sail y maint sampl o 2,500 eiddo a archwiliwyd, ac nid yw hynny'n ddigonol i lywio'r gwaith datblygu a thargedu polisïau yn llwyr. Gydag arolwg yn unig, nid oes yna ychwaith fecanwaith i ddiweddarau ffigurau rhwng yr arolygon cyfnodol (bob 4-5 mlynedd). Felly, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag at greu cyfleuster data ar lefel eiddo, sef yr Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru, er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn.

Dyma'r prif fylchau o ran dystiolaeth y bydd y Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai yn eu llenwi:

- nodweddion sylfaenol yr eiddo (e.e. maint yr eiddo, math, math o adeiladwaith ac oed);

- nodweddion yr aelwyd (e.e. cyfansoddiad yr aelwyd, nodweddion cydraddoldeb, lefelau meddiannaeth, incwm a chostau tai);
- defnydd ynni a nodweddion effeithlonrwydd ynni (e.e. gosodiadau effeithlonrwydd ynni, tanwyddau nad ydynt ar y grid, aelwydydd sydd mewn tloidi tanwydd, dull talu);
- cyflwr o ran atgyweirio a pheryglon; a
- mynediad/addasiadau ar gyfer anabledd.

Bydd mynd i'r afael â'r bylchau hyn mewn tystiolaeth yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i wella iechyd a lles pobl Cymru trwy ddatblygu polisi sy'n seiliedig ar ddata mwy diweddar a mwy cynrychioliadol. Gobeithir y gall mentrau gael eu targedu'n fwy effeithiol hefyd pan fyddant yn seiliedig ar well dealltwriaeth o amodau byw aelwydydd. Disgwylir y ceir arbedion o ran gwariant cyhoeddus, trwy ymdrin â beichiau ariannol ac effeithiau iechyd tai sy'n aneffeithlon o ran tanwydd ac sy'n wael mewn ffyrdd eraill. Gellid defnyddio tystiolaeth hefyd yn sail i benderfyniadau ar fuddsoddi mewn seilwaith, er enghraifft mewn perthynas â'r defnydd parhaus o fuddsoddiad cyfalaf mewn tai, ac i lywio [Rhaglen Datgarboneiddio](#) Llywodraeth Cymru.

Nod yr ADSD yw cefnogi dealltwriaeth gref gan lunwyr polisi o amodau byw a phrofiadau meddianwyr o wahanol grwpiau poblogaeth yng Nghymru. O'i gysylltu â data am ganlyniadau iechyd, addysg a chanlyniadau eraill, gallai dadansoddiad o'r data gynnig ffordd i ddeall y rôl y mae gwahanol gyflyrau tai yn eu chwarae fel penderfynyddion y canlyniadau hyn. Un arall o nodau'r ADSD yw gwella'r data ar gyfer y parth tai yn niweddariad nesaf [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru](#) yn 2019.

Ffigur 1: Gofynion tystiolaeth am gyflwr tai



Ynglŷn â'r papur hwn

Rydym yn cyhoeddi'r adroddiad cynnydd cyntaf hwn er mwyn diweddarau defnyddwyr ynghylch ein cynnydd o ran canfod ffynonellau data gweinyddol sy'n berthnasol i ddatblygiad yr ADSD, ein safbwynt presennol ynghylch y model ar gyfer lletya'r adnodd a galluogi mynediad i'r data, ac i wahodd adborth er mwyn ein cynorthwyo i sicrhau y bydd ein rhaglen yn diwallu anghenion defnyddwyr yn y dyfodol.

Cyswllt

Ffôn: 0300 025 5050 ~ ystadegau.cyflwrtai@llyw.cymru

Cynnwys

1. Dull o fynd ati.....	5
2. Cynnydd.....	5
2.1 Defnyddwyr	6
2.2 Rhanddeiliaid eraill	6
2.3 Ffynonellau data.....	7
2.4 Lletya a chysylltu.....	8
2.5 Mynediad.....	9
3. Camau nesaf a cherrig milltir	9
4. Gwybodaeth bellach	10
Atodiad A – Ffynonellau data yr ymchwiliwyd iddynt	11
Atodiad B – Ffynonellau data y mae angen ymchwilio ymhellach iddynt ..	29
Atodiad C – Cylch Gorchwyl Grŵp Cyngori Technegol yr ADSD	31

1. Dull o fynd ati

Nod yr Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai yw dwyn ynghyd setiau data gweinyddol, data arolwg a data sydd wedi'u modelu o nifer o ffynonellau, lle bo modd, ar lefel eiddo unigol. Bydd y setiau data hyn yn cael eu cysylltu â 'cholofn' o aneddiadau (yn ei hanfod, cofrestr o'r holl aneddiadau yng Nghymru). Bydd hyn yn darparu adnodd i gynorthwyo i ganfod beth yw adeiladwaith, cyflwr ac effeithlonrwydd ynni stoc dai Cymru. Defnyddir yr ADSD ochr yn ochr â chanlyniadau [Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18](#) ac [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) i wella'r gwaith modelu ystadegol ar ddata i lefelau isel o ran daearyddiaeth, yn ogystal â data mwy diweddar nag a fyddai ar gael o arolygon cyfnodol o gyflwr tai yn unig.

Rydym yn dilyn dull iteradd i ddatblygu'r ADSD, a'r nod yw gallu ychwanegu rhagor o werth a dysgu rhywbeth newydd gyda phob iteriad. Y bwriad yw dechrau'r broses hon drwy greu cynnyrch cychwynnol ar ffurf 'esgym sychion', a fydd yn cynnwys yr ychydig setiau data cyntaf yr ydym wedi cael mynediad iddynt, fel prawf o'r cysyniad. Wedi iddo gael ei greu, gellir ei wella ac ychwanegu ato wrth i ragor o setiau data ddod ar gael i'w cysylltu. Bydd pob set ddata a ychwanegir at yr ADSD yn gwella cywirdeb yr amcangyfrifon cenedlaethol a rhanbarthol yn ymwneud â chyflwr tai, effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd.

Mae'r dull o ddefnyddio data sydd ar gael eisoes yn cyd-fynd â'r [Cod Ymarfer newydd ar gyfer Ystadegau](#), sy'n datgan y dylid manteisio ar gyfleoedd i rannu data, cysylltu data, traws-ddadansoddi ffynonellau ac aildefnyddio data pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol, ac y dylai addasrwydd data sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys data gweinyddol, data agored a data a gedwir yn breifat, gael ei asesu cyn mynd ati i gasglu data o'r newydd. Mae [Better Statistics Better Decisions: Strategy for UK Statistics](#) hefyd yn pwysleisio bod yn rhaid i Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ddatblygu ei allu i integreiddio ffynonellau data gweinyddol a masnachol. Y gobaith yw y gellir datgloi setiau data yr arferai fod yn anodd cael gafael arnynt trwy gyfrwng y darpariaethau yn [Neddf yr Economi Ddigidol 2017](#). I'r perwyl hwnnw, rydym yn gweithio'n agos ag Is-adran Data fel Gwasanaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), sy'n gyfrifol am gaffael data.

2. Cynnydd

Dechreuodd y gwaith i ddatblygu'r ADSD o ddifrif ym mis Gorffennaf 2017, pan benodwyd rheolwr prosiect i arwain y gwaith. Roedd llawer o'r gwaith a ddilynodd hynny yn ail hanner 2017 yn golygu ymwneud â rhanddeiliaid a deall anghenion defnyddwyr, ynghyd â chanfod ffynonellau data posibl ac ymchwilio i adnoddau tebyg sydd wedi cael eu datblygu mewn mannau eraill.

Bu'r ffocws yn ystod hanner cyntaf 2018 ar ddwyn yr ychydig setiau cyntaf o ddata ynghyd er mwyn creu cynnyrch cychwynnol prawf-o-gysyniad. Yn ogystal â chael gafael ar ddata, mae hyn wedi golygu ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer lletya'r ADSD, sut i gysylltu setiau o ddata, ac ystyried mynediad i ddefnyddwyr. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r rhanddeiliaid allweddol wedi cytuno mewn egwyddor ar fodel lletya a mynediad, a gwnaed gwaith cychwynnol i lanhau a chysylltu'r ychydig setiau cyntaf o ddata. Gwnaed rhywfaint o waith dadansoddi hefyd i ddeall ansawdd y data a pha mor ddefnyddiol ydyw, a chafwyd yr ystadegau arbrofol cyntaf o'r data a gysylltwyd.

Mae'r angen i ddiogelu data yn cael ei ystyried, gan gynnwys effaith y [Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data \(GDPR\)](#) a ddaeth i rym ym mis Mai 2018. Mae cais yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Ymgynghorol Moeseg Data'r Ystadegydd Cenedlaethol am gymeradwyaeth foesegol i'r ADSD.

Ceir rhagor o fanylion am y gwaith sydd wedi'i gwblhau hyd yn hyn yn adrannau dilynol yr adroddiad hwn.

2.1 Defnyddwyr

Yn ystod 2014-15, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o ofynion tystiolaeth am gyflwr tai. Bu i gyfweiliadau â swyddogion o 30 o ganghennau ledled ystod eang o adrannau Llywodraeth Cymru ac ymhlith partneriaid allanol ganfod gofynion a bylchau tystiolaeth, a dealltwriaeth o sut y gellid defnyddio tystiolaeth. Defnyddiwyd ymarfer gosod blaenoriaethau i ganfod y bylchau pwysicaf. Arweiniodd y gwaith hwn at greu Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai Llywodraeth Cymru, er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau hyn trwy gyfrwng Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 a datblygu'r ADSD.

Gwnaed gwaith cyswllt pellach â defnyddwyr yn ystod ail hanner 2017 er mwyn gosod amcanion clir ar gyfer yr ADSD. Roedd hyn yn golygu siarad â nifer o grwpiau rhanddeiliaid, megis Grŵp Gwybodaeth Tai Llywodraeth Cymru, Panel Arbenigwyr Tai Cymru a Phwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, llywodraeth leol, gwasanaethau cyhoeddus eraill, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, y byd academiaidd a'r trydydd sector. O ganlyniad i'r gwaith ymgysylltu hwn, cafwyd sgysiau dilynol â'r rhai oedd â diddordeb e.e. cyd-weithwyr o fewn lechyd Cyhoeddus Cymru sydd â diddordeb mewn effaith tai ar ganlyniadau ieuchyd. Roedd gan rai defnyddwyr posibl ofynion oedd y tu hwnt i gwmpas cychwynnol y Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai e.e. datblygiad Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru, a fydd yn cynllunio defnydd tir yng Nghymru am yr 20 mlynedd nesaf. Gwnaed y penderfyniad y dylai'r ADSD, yn y lle cyntaf, aros o fewn cwmbras y gofynion tystiolaeth gwreiddiol, ond y gallai fod cyfle i ehangu ei gylch gorchwyl yn y dyfodol.

2.2 Rhanddeiliaid eraill

Yn ogystal ag ymgysylltu â defnyddwyr, rydym wedi bod yn siarad â defnyddwyr data posibl ynghylch eu data ac a ellid eu rhannu â Llywodraeth Cymru er mwyn eu defnyddio yn yr ADSD. Rydym hefyd wedi bod yn ymchwilio i waith perthnasol arall sy'n cael ei wneud mewn mannau eraill, o fewn y Llywodraeth ac yn ehangach. Ceir nifer o enghreifftiau o gyfleusterau data tebyg ynglŷn â'r stoc dai sydd wedi cael eu creu gan gyrff megis yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS), y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. Ceir manylion pellach ynghylch yr adnoddau hyn a ffynonellau data posibl eraill yn Atodiad A.

Rydym wedi bod yn ymwneud yn helaeth â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), sydd wedi bod yn rhoi cymorth a chefnogaeth werthfawr i'r prosiect. Rydym yn gweithio gyda'u His-adran Data fel Gwasanaeth, sy'n gyfrifol am gaffael setiau data gweinyddol, er mwyn ymchwilio sut y gallai data y mae'r ONS yn eu caffael gael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru dan Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017.

Mae arbenigwyr paru ac ymdrin â data yn yr ONS wedi bod yn rhoi cyngor ar gysylltu setiau data hefyd. Rydym wedi bod yn defnyddio, ac yn darparu adborth ar, y Gwasanaeth Paru Cyfeiriadau y

maent yn ei ddatblygu, sydd yn galluogi cysylltu data trwy gyfrwng Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN) yr eiddo.

Rydym hefyd wedi bod yn trafod y prosiect â chyd-weithwyr yng Nghanolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru (ADRC-W) a'r Banc Data Diogel ar gyfer Cysylltiadau Gwybodaeth Ddienw (SAIL Databank) ym Mhrifysgol Abertawe. Mae gan gyd-weithwyr yno gyfoeth o brofiad o ran canfod data iechyd a phoblogaeth, eu storio'n ddiogel, cael mynediad iddynt, eu cysylltu a'u dadansoddi. Rydym wedi gweithio gyda hwy i ddatblygu model ar gyfer lletya a mynediad ar gyfer yr ADSD (gweler yr adrannau perthnasol yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn).

Yn rhan o lywodraethiant y Rhaglen rydym wedi sefydlu Grŵp Technegol yr ADSD, sy'n cwrdd bob chwarter ac sy'n cynnwys cynrychiolaeth o ystod o fuddiannau ac arbenigedd. Rôl y grŵp yw:

- cyflwyno cyngor arbenigol diduedd ar fethodolegau i'w defnyddio wrth ddatblygu a chynnal yr ADSD.
- craffu a chynghori ar gynigion ynghylch cwmpas yr ADSD a'r modd y'i darperir.
- cynorthwyo i ganfod ffynonellau tystiolaeth credadwy yn fewnol ac yn allanol i ategu ac atgyfnerthu'r ADSD.

Mae cylch gorchwyl llawn y Grŵp Technegol i'w weld yn Atodiad C.

2.3 Ffynonellau data

Yn Atodiadau A a B ceir rhestr fanwl o'r ffynonellau data posibl a fyddai'n ddefnyddiol ar gyfer yr ADSD a'r cynnydd a wnaed o ran cael gafael arnynt. Mae'r ADSD yn canolbwyntio ar ddata sy'n ymwneud ag adeiladwaith, cyflwr ac effeithlonrwydd ynni eiddo, a hynny ar lefel eiddo unigol lle bo modd. Ymhlith yr enghreifftiau o newidynnau sy'n angenrheidiol ar gyfer hyn mae deiliadaeth, math o eiddo, maint, oed, math o system gwres canolog a sgôr effeithlonrwydd ynni, er y ceir llawer o newidynnau eraill a allai fod yn berthnasol i gwmpas yr ADSD.

Yn ogystal â gwybodaeth ffisegol am eiddo, rydym hefyd yn gobeithio gallu cysylltu â gwybodaeth am aelwydydd, megis cyfansoddiad aelwydydd ac incwm aelwydydd (sy'n ofynnol ar gyfer cyfrifiadau tlodi tanwydd), er mwyn darparu cyd-destun cymdeithasol ar gyfer stoc dai Cymru. At hynny, disgwylir y gellir cysylltu data o'r ADSD â setiau data ehangach sy'n bodoli eisoes, megis data iechyd ac addysg, gan roi'r cyfle i ymchwilwyr ymchwilio i effaith cyflwr tai ar ganlyniadau meddianwyr. Byddai unrhyw gyswllt o'r fath yn ddiogel ac yn ddienw, ac yn dilyn mesurau rheoli caeth o ran rheoli data a mynediad i ddata.

Er bod yr ADSD yn canolbwyntio'n bennaf ar ddata ar lefel eiddo unigol, os nad oes data ar gael ar y lefel hon mae'n bosibl y byddwn hefyd yn ystyried defnyddio data ar lefel ddaearyddol uwch e.e. [ardal gynnyrch ehangach haen is \(LSOA\)](#).

Bydd mwyafrif y darparwyr data posibl ar gyfer yr ADSD yn gyrff cyhoeddus e.e. Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) a'r Gofrestrfa Tir. Mae rhai mathau o ddata ar gael yn gyhoeddus ar lefel eiddo unigol, ond bydd gofyn cael cytundebau rhannu data ar gyfer rhai mathau o ddata. Gall fod yn anodd cael mynediad i setiau perthnasol o ddata dan y cytundebau perthnasol ar gyfer rhannu data, a gall gymryd amser, ond mae'n bosibl y bydd y ffaith

bod Deddf yr Economi Ddigidol 2017 wedi cael ei phasio yn creu'r porth cyfreithiol i gael gafael ar ddata gweinyddol. Lle bo'n berthnasol, gobeithir y bydd y data y bydd yr ONS yn eu cael yn rhan o'r prosiect Cyfrifiad Data Gweinyddol yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru dan y darpariaethau a geir yn Neddf yr Economi Ddigidol 2017.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cael data ar stoc dai Cymru o'r ffynonellau data canlynol: y Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC), y Gofrestrfa Tir, Rhentu Doeth Cymru, Swyddogion Rhent, awdurdod lleol Powys a Trivallis (un o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig mwyaf Cymru). Mae fersiwn gychwynnol prawf-o-gysyniad o'r ADSD wedi cael ei chreu a'r ystadegau arddangos cyntaf wedi'u tynnu ohoni. Gwnaed gwaith helaeth eisoes, ac mae'r gwaith yn parhau, i lanhau a chysylltu data, a gwnaed gwaith dadansoddi i ddeall ansawdd y data a pha mor ddefnyddiol ydyw. Mae gan bob set o ddata ei heriau ei hun, a'r problemau mwyaf cyffredin yw dyblygu cofnodion, gwybodaeth ar goll neu wedi'i chofnodi'n anghyson, a gwrthdaro rhwng data mewn setiau data cysylltiedig.

2.4 Lletya a chysylltu

Mae data ar gyfer yr ADSD yn cael eu dwyn ynghyd o nifer o wahanol ffynonellau a'u cysylltu, lle mae data ar gael, ar lefel eiddo unigol. Mae data'n cael eu cysylltu ar sail cod adnabod unigryw, sef yr [UPRN](#), o [AddressBase](#). Mae AddressBase yn gynnwys gan yr Arolwg Ordnans sy'n cynnwys rhestr gyflawn o gyfeiriadau ar gyfer y DU. Mae hyn yn darparu 'colofn' o gyfeiriadau ar gyfer yr ADSD. Os nad yw setiau data yn cynnwys yr UPRN, mae Gwasanaeth Paru Cyfeiriadau'r ONS yn cael ei ddefnyddio i ddarparu'r UPRN. Mae'r gwasanaeth hwn yn defnyddio algorithm cymhleth i bennu rhifau UPRN i gyfeiriadau ac mae'n sicrhau cyfradd uchel o ran cyfatebiadau.

Rydym wedi bod yn ymchwilio i opsiynau hirdymor ar gyfer lletya data ynghylch eiddo unigol ac rydym yn ystyried defnyddio [UKSeRP](#) (UK Secure eResearch Platform). Mae UKSeRP yn blatfform e-ymchwil grymus a diogel a ddatblygwyd gan Brifysgol Abertawe ac a fyddai'n cynnig nifer o fuddiannau gan gynnwys grym prosesu sylweddol, cyfleuster rheoli fersiynau, a'r fantais o ddefnyddio'r sgiliau a'r profiad sydd gan eu harbenigwyr cysylltu data eisoes.

Yn ogystal â chynnwys gwybodaeth am adeiladwaith, cyflwr ac effeithlonrwydd ynni eiddo, ceir y posibilrwydd o gysylltu'r ADSD â gwybodaeth am unigolion ac aelwydydd, megis incwm aelwydydd (ar gyfer amcangyfrifon tlodi tanwydd) a chanlyniadau iechyd, addysg a chanlyniadau eraill. Mae nifer o'r setiau data mwy sensitif hyn eisoes yn cael eu cadw gan Fanc Data [SAIL](#) ym Mhrifysgol Abertawe ond byddwn yn ceisio ychwanegu mwy at ddibenion yr ADSD. Mae'r holl ddata yn ddiennw ac mae gan SAIL fesurau rheoli mynediad caeth (gan gynnwys ei bwyllgor moeseg ei hun ar gyfer ymchwil) a fydd yn sail ar gyfer rheoli unrhyw ddata ychwanegol sy'n cael eu caffael ar gyfer yr ADSD.

Mae gan fanc data SAIL ac UKSeRP ill dau ardystiadau ISO 27001. Dyma safon arfer gorau a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer systemau rheoli diogelwch gwybodaeth, gan roi hyder a sicrwydd bod data'n cael eu storio, eu cyrchu a'u dadansoddi yn ddiogel.

2.5 Mynediad

Bydd dadansoddwyr Llywodraeth Cymru yn cynnal eu dadansoddiadau mewnol eu hunain er mwyn llywio gwaith datblygu polisi, profi senarios a rhoi cyngor ar dargedu ymyriadau. Rydym hefyd yn ystyried cyfleuster er mwyn i ddefnyddwyr allanol gael mynediad i ddata crynswth ac, o bosibl, rhywfaint o ddata ar lefel eiddo os nad ydynt yn rhai sensitif. Gallai hyn fod trwy gyfrwng gwefan StatsCymru Llywodraeth Cymru trwy lif data agored neu trwy gyfrwng porth gwe ar yr UKSeRP. Byddai mynediad i ddata yn ddibynnol ar y cytundebau trwyddedu ar gyfer y ffynonellau data gwreiddiol a byddai angen cyfyngu rhai agweddau ar yr ADSD i rai defnyddwyr penodol. Mae'r UKSeRP yn cynnig cyfres o becynnau dadansoddol y gallai ymchwilyr cymeradwy eu defnyddio i ddadansoddi data ar lefel eiddo mewn amgylchedd diogel. Byddai ar ymchwilyr angen cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru er mwyn tynnu eu dadansoddiadau o'r amgylchedd hwn.

3. Camau nesaf a cherrig milltir y prosiect

Haf 2018	Parhau i sicrhau ansawdd a chysylltu'r setiau data sydd wedi'u caffael hyd yma.
Haf 2018	Penderfynu ar y datrysiad lletya hirdymor ar gyfer yr ADSD (UKSeRP, sef yr UK Secure Research Platform, mae'n debyg).
Haf 2018	Cwblhau asesiad o'r effaith ar breifatrwydd yn unol â GDPR.
Haf 2018	Ymgysylltu â phartneriaid posibl mewn meysydd polisi eraill megis Addysg.
Haf 2018	Ceisio cyllid pellach i'r Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai, gan ein galluogi i ddatblygu, gwella a defnyddio'r ADSD i raddau mwy helaeth. Edrych hefyd ar yr opsiynau ar gyfer arolygon o gyflwr tai yng Nghymru i'r dyfodol a gwneud argymhelliad ar gyfer dyfodol y Rhaglen.
Hydref 2018	Sicrhau cymeradwyaeth foesegol ar gyfer yr ADSD gan Bwyllgor Ymgynghorol Moeseg Data yr Ystadegydd Cenedlaethol.
Mawrth 2019	Defnyddio'r ADSD wedi'i integreiddio â data Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 i fodelu amcangyfrifon o newidynnau allweddol hyd at lefel sydd islaw lefel genedlaethol.
Haf 2019	Galluogi gwell data ar amddifadedd tai i gael eu cynnwys ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, drwy fodelu data ar lefel ardal gynnyrch ehangach haen is (LSOA).

4. Gwybodaeth bellach

[Y Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai](#)

[Arolwg Cyflwr Tai Cymru](#)

[Arolwg Cenedlaethol Cymru](#)

[Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru](#)

[Rhaglen Datgarboneiddio](#)

[Banc data SAIL](#)

[UK Secure eResearch Platform \(UKSeRP\)](#)

[Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru \(ADRC-W\)](#)

[Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#)

[Better Statistics Better Decisions: Strategy for UK Statistics, 2015-2020](#)

[Pwyllgor Ymgynghorol Moeseg Data yr Ystadegydd Cenedlaethol](#)

[Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data \(GDPR\)](#)

[Deddf yr Economi Ddigidol 2017](#)

[Cyfeirnod Eiddo Unigryw \(UPRN\)](#)

[AddressBase](#)

[Ardal gynnyrch ehangach haen is \(LSOA\)](#)



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan [y Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0](#), ac eithrio lle nodir yn wahanol.

Atodiad A – Ffynonellau data yr ymchwiliwyd iddynt

Set ddata	Perchennog	Disgrifiad / Newidynnau allweddol	Cwmpas ac Ansawdd y Data (~1.4 miliwn o anheddiadau yng Nghymru)	Cynnydd a Champau Nesaf	Dolenni Gwe
AddressBase	Arolwg Ordnans	Yn darparu rhestr o'r holl gyfeiriadau preswyl yng Nghymru, gyda chyfeirnod eiddo unigryw (UPRN) wedi'i bennu i bob un ohonynt. Bydd y set ddata hon yn creu colofn o gyfeiriadau y gellir cysylltu setiau data eraill â hi trwy gyfrwng y rhifau UPRN.	Yn cwmpasu pob cyfeiriad yng Nghymru. Gallai rhywfaint o'r data fod wedi dyddio. Mae'r data'n cael eu casglu ynghyd gan gwmni o'r enw GeoPlace ac mae ardaloedd awdurdodau lleol yn cael eu graddio'n aur/arian/efydd o ran eu hansawdd. Ar y cyfan, mae gan Gymru wybodaeth o ansawdd dda iawn ar hyn o bryd.	Mae cyfres AddressBase o gynnyrch ar gael am ddim yn y man defnydd ar gyfer y sector cyhoeddus cyfan, dan Gytundeb Mapio'r Sector Cyhoeddus (PSMA). Felly mae gan Lywodraeth Cymru'r data yn barod.	Arolwg Ordnans GeoPlace

Set ddata	Perchennog	Disgrifiad / Newidynnau allweddol	Cwmpas ac Ansawdd y Data (~1.4 miliwn o anheddiadau yng Nghymru)	Cynnydd a Chamau Nesaf	Dolenni Gwe
Tystysgrifau Perfformiad Ynni (EPC)	Y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG)	Ceir nifer fawr o newidynnau yn y set ddata. Mae'r rhain yn cynnwys: sgôr ynni presennol; sgôr ynni posibl; allyriadau CO₂; costau ynni; math o ffenestri; nifer yr ystafelloedd cyfanheddol; disgrifiadau o'r lloriau, waliau a nenfydau; prif fath o danwydd; uchder y llawr. Rhifau UPRN ddim yn bresennol.	Mae tua 40-50% o'r holl stoc wedi'i gwmpasu. Dylai Tystysgrifau Perfformiad Ynni fod ar gael i'r holl eiddo a adeiladwyd, a brynwyd neu a osodwyd ers 2008. Mae'n cynnwys cartrefi newydd a adeiladwyd ers 2008, gan fod Tystysgrif Perfformiad Ynni yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer tai newydd sy'n cael eu hadeiladu, ond nid yw'r cofrestrau yn cynnwys data ar gyfer pob adeilad yng Nghymru. Mae'r sector perchen-feddianwyr yn debygol o fod wedi'i dangynrychioli gan fod llai o symud yma. Ystyriaeth arall yw y bydd rhai Tystysgrifau Perfformiad Ynni wedi dyddio. Er enghraifft, gall perchennog tŷ wneud gwelliannau e.e. uwchraddio'r boeler, ond ni fyddai tystysgrif newydd yn cael ei chyflwyno nes y byddai'r eiddo'n cael ei werthu neu ei osod eto. Mae materion penodol eraill yn ymwneud ag ansawdd data yn cael eu hamlinellu yn natganiad ystadegol y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG, gweler y dolenni gwe)	Mae'r data ar gael am ddim ar-lein. Mae'r data wedi cael eu lawrlwytho a rhywfaint o waith ymchwilio a dad-ddyblygu wedi'i gwblhau. Mae angen mwy o waith ymchwil i ansawdd y data. Mae rhifau UPRN wedi cael eu hychwanegu at y set ddata hon gan ddefnyddio Gwasanaeth Paru Cyfeiriadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).	Data craidd EPC Datganiad Ystadegol MHCLG, gan gynnwys nodyn am ansawdd

Set ddata	Perchennog	Disgrifiad / Newidynnau allweddol	Cwmpas ac Ansawdd y Data (~1.4 miliwn o anheddiadau yng Nghymru)	Cynnydd a Chamau Nesaf	Dolenni Gwe
Set Ddata Pris a Dalwyd y Gofrestrfa Tir	Cofrestrfa Tir EM	Pris a dalwyd; dyddiad y trafodiad; math o eiddo; HEN/NEWYDD; daliadaeth (rhydd-ddaliad/lesddaliad) Rhifau UPRN ddim yn bresennol.	Data ar gyfer yr holl werthiannau eiddo preswyl o 1995 hyd heddiw. Ansawdd heb ei asesu eto Mae gan y Gofrestrfa Tir hefyd set ddata'r Gwasanaeth Polygon Cenedlaethol sy'n cynnwys gwybodaeth ar gyfer yr holl deitlau, am gost o £20,000 y flwyddyn. Mae hon hefyd yn cynnwys rhifau UPRN.	Y Set Ddata Pris a Dalwyd ar gael ar-lein am ddim. Mae holl gofnodion Cymru wedi cael eu lawrlwytho ac mae rhywfaint o waith ymchwilio a dad-ddyblygu wedi'i wneud ond mae angen gwaith ymchwil pellach i ansawdd y data. Rhifau UPRN wedi'u hychwanegu at y set ddata gan ddefnyddio gwasanaeth paru cyfeiriadau'r ONS.	Set Ddata Pris a Dalwyd Gwasanaeth Polygon Cenedlaethol

Set ddata	Perchennog	Disgrifiad / Newidynnau allweddol	Cwmpas ac Ansawdd y Data (~1.4 miliwn o anheddiadau yng Nghymru)	Cynnydd a Chamau Nesaf	Dolenni Gwe
Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA)	VOA	Grŵp yr eiddo; math o eiddo; oedran yr eiddo; ardal yr eiddo; nifer o ystafelloedd; nifer o ystafelloedd gwely; nifer o ystafelloedd ymolchi; nifer o lorïau; lefel llawr isaf; adeiladau allanol; heulfan; cod arwyddocâd gwerth; maint y plot; gwres canolog; moderneiddiwyd; dyddiad effeithiol	Yn cwmpasu Cymru gyfan. Mae'n bosibl na fydd prisiadau yn gwbl ddiweddar, ee os ychwanegwyd estyniad ers dyddiad y prisiad diwethaf.	Mae'r isadran Data fel Gwasanaeth o fewn yr ONS wedi cytuno i helpu Llywodraeth Cymru i gael gafael ar ddata drwy gyfrwng Deddf yr Economi Ddigidol. Mae'r ONS eisoes yn dal data'r VOA a gellid defnyddio hwn fel 'achos prawf' lle bydd yr ONS yn trosglwyddo data i weinyddiaeth ddatganoledig o dan y Deddf. Mae'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) yn defnyddio data'r VOA ar gyfer eu Fframwaith Data Effeithlonrwydd Ynni Cenedlaethol (NEED) ond mae hyn yn gofyn am gytundeb cymhleth lle bydd un o staff BEIS yn cwblhau'r dadansoddiad yn adeilad y VOA ac yna'n mynd â'r data crynswth yn ôl i BEIS.	Newidynnau'r VOA

Set ddata	Perchennog	Disgrifiad / Newidynnau allweddol	Cwmpas ac Ansawdd y Data (~1.4 miliwn o anheddiadau yng Nghymru)	Cynnydd a Chamau Nesaf	Dolenni Gwe
Cynllun Nyth	Llywodraeth Cymru	Gweler y ddolen i'r we am fwy o wybodaeth. TENURE; WALL_TYPE; PROPERTY_TYPE; HOUSEHOLDER_BENEFIT; HEATED_ROOM_COUNT; PROPERTY_AGE_BAND; FUEL_GROUPED; CO2_LIFETIME_SAVING; ENERGY_USE_SAVING; FUEL_COST_ANNUAL_SAVING; SAP_TOTAL_GAIN FUEL (Bydd mwy o newidynnau ar gael o fis Ebrill ymlaen, ee arwynebedd llawr)	Mae tua 30,000 o gartrefi wedi cael gwelliannau o dan y cynllun ers 2011. Mae'r cynllun yn dal i redeg felly bydd y nifer hwn yn dal i gynyddu. Mae rhai problemau gyda data coll, a hefyd y ffaith bod gan rai cartrefi gyfraddau meddiannaeth anymarferol o uchel.	Mae'r data yn cael eu defnyddio ar gyfer y Prosiect Cysylltu Data Tlodi Tanwydd gan Lywodraeth Cymru, sy'n archwilio'r canlyniadau iechyd ar gyfer pobl sydd wedi derbyn gwelliannau i'w tai o dan y cynllun Nyth (ac Arbed). Mae'r data wedi cael eu harbed ym manc data SAIL at ddiben y prosiect hwn.	Gwybodaeth gyffredinol am y cynllun Nyth
Cynllun Arbed	Llywodraeth Cymru	Gweler y ddolen i'r we am wybodaeth am y cynllun. Nid yw union fanylion y newidynnau yn hysbys ond maent yn debyg o fod yn debyg i rai Nyth.	Tua 12,500 o gartrefi yn sgil camau 1 a 2 (hyd at 2015) ond mae'r cynllun yn dal i redeg felly bydd y niferoedd yn parhau i godi.	Mae dwy fersiwn ar y data. (Un mewn cronfa ddata ganolog a'r llall wedi ei chrynhofio o ddata gwahanol weithredwyr y cynllun.) Mae angen gwaith i gymharu'r ddwy set ddata i weld pa un sydd o'r ansawdd gorau, ac yna defnyddio'r fersiwn honno at y dyfodol.	Gwybodaeth gyffredinol am y cynllun Arbed

Set ddata	Perchennog	Disgrifiad / Newidynnau allweddol	Cwmpas ac Ansawdd y Data (~1.4 miliwn o anheddiadau yng Nghymru)	Cynnydd a Chamau Nesaf	Dolenni Gwe
Rhentu Doeth Cymru	Cyngor Caerdydd (ar ran yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru)	Cynllun cofrestru gorfodol i landlordiaid preifat. Math o eiddo; nifer yr ystafelloedd gwely; deiliadaeth (oll yn cael eu rhentu'n breifat)	Ar hyn o bryd mae tua 175,000 eiddo wedi'u cofrestru. Amcangyfrifwyd mai 200,000 oedd maint y sector rhentu preifat yn 2015-16 felly ymddengys fod lefel yr eiddo sy'n cael ei gwmpasu yn dda.	Mae'r data wedi eu cael gan Rentu Doeth Cymru, gan ddileu unrhyw ddyblygu. Darparwyd rhifau UPRN ar gyfer y rhan fwyaf o'r eiddo. Cynhaliwyd gwaith i gael gafael ar y rhifau UPRN coll drwy gyfrwng gwasanaeth paru cyfeiriadau yr ONS.	Gwybodaeth gyffredinol am Rentu Doeth Cymru
Gwybodaeth Swyddogion Rhent am eiddo rhent preifat	Llywodraeth Cymru	Sampl o'r sector rhentu preifat. Math o eiddo; oedran yr eiddo; nifer yr ystafelloedd / ystafelloedd gwely; gwresogi (oes/nac oes); parcio; cyflwr (Rhagorol/Da/Boddhaol /Gwael)	30,000-40,000 eiddo'r flwyddyn (17% o'r stoc o eiddo rhent preifat). Ond mae'r wybodaeth am stoc blynyddoedd blaenorol ar gael hefyd, a allai fod yn ddefnyddiol. Caiff y data eu hadrodd gan yr asiantiaid/landlordiaid eu hunain, ac mae rhai eitemau yn rhai goddrychol.	Data wedi eu casglu a'r rhifau UPRN wedi'u hychwanegu at y set ddata gan ddefnyddio gwasanaeth paru cyfeiriadau yr ONS. Mae angen ymchwilio i ansawdd y data.	Adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar eiddo rhent preifat, gan ddefnyddio'r data
Arolwg Cyflwr Tai Cymru (WHCS)	Llywodraeth Cymru	Pob un o'r newidynnau yn berthnasol – gweler y ddolen i'r we ar gyfer ffurflen yr arolwg	2,552 eiddo ledled Cymru, mewn pob math o ddeiliadaethau. Disgwylir i ansawdd y data fod yn uchel.	Bydd y data ar gael i'w cysylltu â'r ADSD o haf 2018 ymlaen. Disgwylir cynnal yr Arolwg bob 4-5 mlynedd.	Gwybodaeth am yr Arolwg

Set ddata	Perchennog	Disgrifiad / Newidynnau allweddol	Cwmpas ac Ansawdd y Data (~1.4 miliwn o anheddiadau yng Nghymru)	Cynnydd a Chamau Nesaf	Dolenni Gwe
Data rheoli asedau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Awdurdodau Lleol	Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Awdurdodau Lleol	Nodweddion eiddo (math, maint, oed, ystafelloedd) SATC – manylion ynghylch a yw'r eiddo yn cydymffurfio, gan gynnwys cydrannau (ffenestri, drysau, gwres canolog, sgôr SAP ac ati). Gwelliannau a wnaed, eiddo gwag, manylion addasiadau, dymchweliadau, peryglon	Yr holl stoc eiddo cymdeithasol (16% o'r holl anheddiadau yng Nghymru), wedi'i rannu rhwng 11 ALI a thua 50 landlord cymdeithasol cofrestredig. Mae ansawdd y data yn debygol o amrywio rhwng sefydliadau, gan ddibynnu ar eu systemau a'u prosesau. Mae gwahanol ddata yn debygol o gael eu cadw, ac mewn gwahanol fformatau.	Mae data wedi eu derbyn gan un Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (Trivallis) sy'n cynnwys data defnyddiol am eu holl stoc (tua 10,000 o gartrefi). Caiff y data eu harbed ym manc data SAIL fel y gellir cynnal dadansoddiad o ganlyniadau iechyd y meddianwyr. Y gobaith yw y bydd grym y dadansoddiad hwn o ddata a gysylltwyd yn gallu helpu i annog landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac ALLau eraill i rannu eu data ar lefel eiddo (mae Llywodraeth Cymru eisoes yn casglu data a gydgrynhowyd gan ALLau a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig). Data cychwynnol wedi'u derbyn gan awdurdod lleol Powys.	Gwybodaeth am gasgliadau data cyfredol crynswth sydd gan Lywodraeth Cymru am dai

Set ddata	Perchennog	Disgrifiad / Newidynnau allweddol	Cwmpas ac Ansawdd y Data (~1.4 miliwn o anheddiadau yng Nghymru)	Cynnydd a Chamau Nesaf	Dolenni Gwe
Zoopla	Zoopla / Urban Big Data Centre (UBDC)	Zoopla yw un o wefannau mwyaf y DU ar gyfer rhestru eiddo num_bathrooms; num_bedrooms; num_floors; num_recepts; description; short_description;	Mae'r ONS wedi defnyddio toriad o ddata Zoopla o'r UBDC ar gyfer rhai prosiectau ymchwil ac maent wedi rhannu gwybodaeth a lefel y cwmpasu a'r ansawdd. Mae gwell lefel o gwmpasu gan y data y maent wedi bod yn eu defnyddio mewn ardaloedd gwledig nag ardaloedd trefol, ac mae lefel y cwmpasu'n gwella'n sylweddol rhwng 2009 a 2011 oherwydd bod cyfran Zoopla o'r farchnad wedi cynyddu yn y cyfnod hwn (aiff y data yn ôl i 2010). Mae peth problemau gyda data coll a gall peth gwybodaeth ddefnyddiol fod ynghudd mewn meysydd testun rhydd. Yn 2015, roedd gan Zoopla tua 35% o'r farchnad ar-lein.	Roedd peth data Zoopla ar gael am ddim drwy gyfrwng yr Urban Big Data Centre ond, am resymau masnachol, yn ddiweddar mae Zoopla wedi symud tuag at gyfyngu ar fynediad heb eu cymeradwyaeth uniongyrchol hwy. Mae angen mwy o drafodaeth gyda Zoopla am y data y gallant eu cynnig ac unrhyw gost gysylltiedig.	Data Zoopla ar wefan UBDC Canlyniadau ymchwil yr ONS ar brisiau rhent mewn ardaloedd bychain, gan ddefnyddio data Zoopla Canlyniadau ymchwil yr ONS yn nodi cartrefi carafán yn nata Zoopla
Rightmove	Rightmove	Y wefan fwyaf sy'n rhestru eiddo. Newidynnau yn anhysbys ond yn debygol o fod yn debyg i rai Zoopla	Yn 2015, roedd gan Rightmove 50% o'r farchnad ar-lein. Mae ansawdd y data yn anhysbys.	Mae'r ONS ar drywydd data Rightmove a byddant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru am hynt y gwaith hwnnw.	Gwasanaethau data Rightmove

Set ddata	Perchennog	Disgrifiad / Newidynnau allweddol	Cwmpas ac Ansawdd y Data (~1.4 miliwn o anheddiadau yng Nghymru)	Cynnydd a Chamau Nesaf	Dolenni Gwe
Y Gronfa Ddata Effeithlonrwyd Ynni Cartrefi (HEED)	Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni (EST)	Mae HEED wedi cael ei datblygu gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ar ran Llywodraeth y DU. Cychwynnwyd y rhaglen yn 2001 er mwyn cofnodi'r defnydd o fesurau ynni cynaliadwy a data arolygon cysylltiedig ledled stoc dai'r DU. Mae HEED yn set ddata fawr o fesurau a ddefnyddiwyd ledled stoc dai'r DU, ac mae'n cynnwys mesurau a gyflwynwyd o dan gynlluniau'r llywodraeth, fel CERT ac ECO, ond hefyd ddata o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys gosod boeleri newydd (CORGI) a ffenestri gwydr dwbl (FENSA), ynghyd â swm sylweddol o ddata arolygon.	Nid oes data newydd am Gymru wedi eu hychwanegu at HEED ers 2013 felly ni fydd y data yn rhoi darlun diweddar o sefyllfa stoc dai Cymru.	Mae gan EST ddata eraill (fel data am yr EPC) yn ogystal â data o HEED, ond dylai'r rhan fwyaf o'r rhain fod ar gael yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.	Gwybodaeth am HEED

Set ddata	Perchennog	Disgrifiad / Newidynnau allweddol	Cwmpas ac Ansawdd y Data (~1.4 miliwn o anheddiadau yng Nghymru)	Cynnydd a Chamau Nesaf	Dolenni Gwe
Fframwaith Data Effeithlonrwyd d Ynni Cenedlaethol (NEED)	Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS)	Defnydd nwy blynyddol; defnydd trydan blynyddol; sgôr effeithlonrwydd ynni; oedran yr eiddo; math o eiddo; arwynebedd y llawr; prif danwydd trwch yr atig; adeiladwaith y waliau; inswleiddio waliau dwbl; blwyddyn yr inswleiddio waliau dwbl; inswleiddio'r atig; blwyddyn inswleiddio'r atig; boeler; blwyddyn y boeler; deiliadaeth; incwm yr aelwyd	Mae NEED yn cyfuno data o ffynonellau sy'n bodoli eisoes, a'r prif bedwar yw cyflenwyr ynni, Experian, Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) a gosodiadau mesur effeithlonrwydd ynni (ee. HEED ac ECO). Bydd ansawdd y data yn dibynnu ar ansawdd y data o'r ffynonellau.	Mae BEIS yn rhoi rhywfaint o'r data defnydd ynni i'r Alban ac, felly, yn ddamcaniaethol, gellid sefydlu cytundeb tebyg ar gyfer Cymru. Byddai angen cyfiawnhau hyn i raddau. Ni ellir trosglwyddo data'r VOA i Lywodraeth Cymru. Mae'r ystadegwr sy'n gyfrifol am NEED yn ymchwilio i ganfod a ellir rhannu data ECO a'r Fargen Werdd gyda Llywodraeth Cymru.	Ffynonellau data NEED

Set ddata	Perchennog	Disgrifiad / Newidynnau allweddol	Cwmpas ac Ansawdd y Data (~1.4 miliwn o anheddiadau yng Nghymru)	Cynnydd a Chamau Nesaf	Dolenni Gwe
Cronfa ddata Cyflwr y Stoc Dai y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE)	Y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE)	Ar hyn o bryd mae'r gronfa ddata yn cynnwys data am Loegr ond gellid ei hehangu i gynnwys Cymru. Newidynnau allweddol ynghylch cyflwr (yn cynnwys HHSRS, SAP, dadfeiliad, oed, math, deiliadaeth, tai amlfeddiannaeth (HMOs)) Newidynnau effeithlonrwydd ynni (yn cynnwys math o danwydd, math o foeler, inswleiddio, allyriadau CO2, galw am ynni)	Mae'r data'n cael eu modelu gan ddefnyddio nifer o ffynonellau (gan gynnwys data Experian, yr EPC ac Arolwg Tai Lloegr). Bydd ansawdd y data yn dibynnu ar ansawdd y data o'r ffynonellau.	Mae'r BRE wedi cynnig creu cronfa ddata ar gyflwr y stoc i Gymru, ond mae cost yn gysylltiedig â hyn. Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried a yw'n cynnig gwerth am arian o'i gymharu â datrysiad mewnol.	Modelu stoc dai'r BRE

Set ddata	Perchennog	Disgrifiad / Newidynnau allweddol	Cwmpas ac Ansawdd y Data (~1.4 miliwn o anheddiadau yng Nghymru)	Cynnydd a Chamau Nesaf	Dolenni Gwe
Gofal a Thrwsio	Gofal a Thrwsio Cymru	Deiliadaeth; math o eiddo; oedran yr eiddo; byw ar eich pen eich hun; unrhyw un wedi baglu neu gwmpo; anabled; cyfansoddiad yr aelwyd; math o wasanaeth (ee cyngor, grant cyfleusterau i'r anabl (DFG), mân waith)	Ar hyn o bryd ceir gwerth 3-4 blynedd o ddata ym manc data SAIL (2009 - 2012). Maent yn gobeithio cael gwerth 5-6 mlynedd ychwanegol o ddata (2012 - 2017) gyda diweddariad yn bosibl er mwyn cael blwyddyn ychwanegol (2018). Bydd y blyneddau ychwanegol o ddata yn creu cyfanswm o dros 140,000 o bobl a chartrefi. Ceir problemau o ran gwerthoedd coll gyda'r data presennol, a dim ond tua 50% yn gyflawn yw'r data ynghylch nodweddion eiddo.	Mae rhywfaint o ddata Gofal a Thrwsio eisoes yn cael eu cadw ym manc data SAIL ym Mhrifysgol Abertawe a cheir cynlluniau i ddiweddau'r rhain â blyneddau mwy diweddar. Ar hyn o bryd, dim ond data ar gyfer y prosiectau penodol y cawsant eu cyflwyno ar eu cyfer sydd ar gael. Er mwyn iddynt allu cael eu defnyddio ar gyfer yr ADSD, byddai angen iddynt fod yn 'set ddata graidd'.	Gwybodaeth gyffredinol am Gofal a Thrwsio Cymru
Cynllun peilot Hwyluso	Llywodraeth Cymru	Gwybodaeth am addasiadau i gartrefi. Nid yw'r data peilot yn cynnwys cyfeiriadau felly ni ellir eu cysylltu. Fodd bynnag, dylai fod cyfle i ychwanegu meysydd y gellid eu cysylltu e.e. UPRN / cyfeiriad os bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno'n ehangach.	Pob deiliadaeth. Roedd y cynllun peilot yn Sir Gaerfyrddin, Caerffili a Chymdeithas Tai Wales & West.	Mae'r data ar gyfer y cynllun peilot yn cael eu rhoi mewn cronfa ddata ar hyn o bryd. Y tebygrwyd yw na fyddant o lawer o ddefnydd yn sgil y diffyg gwybodaeth y gellir ei chysylltu. Mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn ceisio mynd i'r afael ag ef os bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno'n ehangach.	Gwybodaeth ynghylch cynllun peilot Hwyluso

Set ddata	Perchennog	Disgrifiad / Newidynnau allweddol	Cwmpas ac Ansawdd y Data (~1.4 miliwn o anheddiadau yng Nghymru)	Cynnydd a Chamau Nesaf	Dolenni Gwe
Cynlluniau Diogelu Blaendal Tenantiaeth	Y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG)	Mae'r wybodaeth orfodol a gedwir yn ymwneud â'r blaendal ac unrhyw anghydfod, sydd y tu hwnt i'n cwmpas ni. Fodd bynnag, mae rhywfaint o wybodaeth am nodweddion eiddo, nad yw'n orfodol, yn cael ei chasglu.	Data ar gyfer tenantiaethau byrddaliol sicr a ddechreuodd wedi 6 Ebrill 2007 (tybir bod y data'n cwmpasu tua 50% o'r sector rhentu preifat). Yn anffodus, tameidiog yw'r data ynghylch nodweddion eiddo.	Mae angen trafodaeth bellach gydag MHCLG ynghylch y data am nodweddion eiddo, nad ydynt yn orfodol. Mae'r ONS ar drywydd y data hyn hefyd, felly gallai fod ar gael trwy gyfrwng y DEA.	Gwybodaeth gyffredinol am gynlluniau diogelu blaendal tenantiaeth
Ar y rhwydwaith nwy ai peidio	Xoserve / Wales & West Utilities / cludwyr nwy annibynnol / yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS)	A yw'r eiddo ar y rhwydwaith nwy ai peidio.	Yn cwmpasu Cymru gyfan a, cyhyd â bod y data'n gyfredol, dylent fod yn gywir.	Gwnaed rhywfaint o waith i DECC (BEIS bellach) gan Lywodraeth Cymru yn 2015 i ymchwilio i ba eiddo oedd ar y rhwydwaith nwy ac, ar gyfer y rhai nad oeddent, y pellter o'r rhwydwaith (i ddangos pa mor rhwydd neu beidio fyddai eu hychwanegu at y rhwydwaith). Gellid diweddarau rhestr syml o eiddo sydd ar/ddim ar y rhwydwaith os ceir y data diweddaraf gan BEIS.	Amcangyfrifon BEIS o aelwydydd nad ydynt wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith nwy

Set ddata	Perchennog	Disgrifiad / Newidynnau allweddol	Cwmpas ac Ansawdd y Data (~1.4 miliwn o anheddiadau yng Nghymru)	Cynnydd a Chamau Nesaf	Dolenni Gwe
Prosiect Cartrefi Iach Pobl Iach yng Ngogledd Cymru	Cyngor Sir y Fflint	Prosiect i dargedu cartrefi bregus yng Ngogledd Cymru a rhoi cymorth. Ymhlith y newidynnau mae: Nodweddion yr eiddo, statws cyflogaeth, deiliadaeth, gwres canolog, tamprwydd/llwydni yn bresennol, inswleiddio, diogelwch cartrefi, diogelwch tân, manylion budd-daliadau, ethnigrwydd, hanes o ran iechyd	Gogledd Cymru – tua 3,000 eiddo yn cael eu targedu ar gyfer y prosiect.	Cytundeb mewn egwyddor â rheolwr y prosiect i rannu data gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer yr ADSD. Y camau nesaf yw symud hyn ymlaen mewn partneriaeth â chyd-weithwyr ym manc data SAIL sydd hefyd â diddordeb yn y data.	Gwybodaeth am y prosiect
Rhwymedigae th Cwmni Ynni (ECO)	Ofgem (ar ran BEIS)	Grantiau ar gyfer gosodiadau effeithlonrwydd ynni ee. Inswleiddio walïau soled Inswleiddio walïau dwbl Inswleiddio'r atig Newid boeler	Mae lefel y cwmpasu yng Nghymru yn anhysbys ond cymeradwywyd 690,000 o fesurau ar gyfer y DU ar gyfer yr 2il don (ECO2) sy'n rhedeg o Ebrill 2015 hyd fis Medi 2018. Bu ECO1 yn rhedeg o Ionawr 2013 - Mawrth 2015.	Mae BEIS yn defnyddio'r data hyn yn eu cronfa ddata NEED. Rydym yn ymchwilio i ddarganfod a ellid rhannu siâr Cymru o'r data ar gyfer yr ADSD.	Gwefan ECO

Set ddata	Perchennog	Disgrifiad / Newidynnau allweddol	Cwmpas ac Ansawdd y Data (~1.4 miliwn o anheddiadau yng Nghymru)	Cynnydd a Chamau Nesaf	Dolenni Gwe
Data budd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)	Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)	Data budd-daliadau ac incwm	Yr holl bobl / aelwydydd perthnasol yng Nghymru	Mae gan yr ONS ddata'r DWP ac rydym yn ymchwilio gyda'u his-adran Data fel Gwasanaeth i ddarganfod a ellid eu rhannu â Llywodraeth Cymru.	Ystadegau a gyhoeddwyd gan DWP
Data incwm personol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	CThEM	Incwm personol	Yr holl bobl yng Nghymru sy'n datgan incwm (talw wrth ennill/PAYE a hunangyflogedig)	Mae gan yr ONS ddata CThEM ac rydym yn ymchwilio gyda'u his-adran Data fel Gwasanaeth i ddarganfod a ellid eu rhannu â Llywodraeth Cymru.	Ystadegau a gyhoeddwyd gan CThEM
Data'r Cyngor Benthycwyr Morgeisi (CML)	CML	Cod post yr eiddo; gwerth yr eiddo sydd â morgais; pris prynu'r eiddo; math o eiddo; nifer yr ystafelloedd cyfanheddol; nifer yr ystafelloedd gwely; cartref newydd	Trafodiadau morgais ar gyfer tai a brynwyd 2005 – 2016. Ansawdd yn anhysbys.	Gellid prynu'r set ddata fasnachol hon ond dylai'r newidynnau defnyddiol fod ar gael am ddim mewn mannau eraill.	Gwefan CML

Set ddata	Perchennog	Disgrifiad / Newidynnau allweddol	Cwmpas ac Ansawdd y Data (~1.4 miliwn o anheddiadau yng Nghymru)	Cynnydd a Chamau Nesaf	Dolenni Gwe
Paycheck, Household Acorn a HouseAge	CACI	Tair set ddata fasnachol wahanol sydd wedi'u modelu. Yn cynnwys incwm aelwydydd, math o dŷ, deiliadaeth, maint y tŷ, maint a strwythur yr aelwyd, incwm, budd-daliadau	Data wedi'u modelu ar gyfer Cymru gyfan. Ansawdd yn anhysbys ond daw rhywfaint o'r data o arolygon ffordd-o-fyw.	Gellid prynu'r set ddata fasnachol hon ond dylai'r newidynnau defnyddiol fod ar gael am ddim mewn mannau eraill.	Rhestr o gynnyrch CACI
Experian	Experian	Nodweddion aelwydydd megis incwm a deiliadaeth	Defnyddir gan BEIS ar gyfer NEED a hefyd gan y BRE ar gyfer eu cronfa ddata stoc. Fel gyda CACI, mae'r data wedi'u modelu a daw rhywfaint o'r data o arolygon ffordd-o-fyw.	Gellid prynu'r set ddata fasnachol hon ond dylai'r newidynnau defnyddiol fod ar gael am ddim mewn mannau eraill.	Gwybodaeth am ddata Experian
Arolwg o Adnoddau Teulu (FRS)	Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)	Gwybodaeth am incymau ac amgylchiadau byw aelwydydd a theuluoedd yn y DU (gan gynnwys cyfansoddiad a deiliadaeth)	Sampl o tua 800-900 o aelwydydd yng Nghymru bob blwyddyn.	Ceir mesurau rheoli hynod o gaeth ar bwy sy'n gallu cael mynediad i ddata ar lefel isel. Mae'n bosibl cael mynediad i ficroddata dienw ond ni fyddai modd eu cysylltu.	Gwybodaeth am yr Arolwg ar wefan Gwasanaeth Data'r DU

Set ddata	Perchennog	Disgrifiad / Newidynnau allweddol	Cwmpas ac Ansawdd y Data (~1.4 miliwn o anheddiadau yng Nghymru)	Cynnydd a Chamau Nesaf	Dolenni Gwe
Arolwg Blynnyddol o Oriau ac Enillion (ASHE)	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol	Tâl wythnosol gros; tâl wythnosol heb oramser; tâl sylfaenol yn cynnwys tâl arall; tâl goramser; tâl gros fesul awr; tâl fesul awr heb oramser; tâl blynnyddol gros; tâl cymhelliad blynnyddol; cyfanswm yr oriau a delir; oriau sylfaenol a delir; oriau o oramser a delir	Mae'r arolwg yn seiliedig ar sampl 1% o swyddi cyflogaion a gymerwyd o gofnodion Talu wrth Ennill/PAYE CThEM. Nid yw'n cwmpasu'r bobl hynny sy'n hunangyflogedig.	Gan fod y data hyn yn fwy sensitif ac/neu â risg uwch o ddatgelu na data sydd ar gael dan y Drwydded Defnyddiwr arferol, nid ydynt ar gael i'w lawrlwytho ond gellir cael mynediad iddynt trwy Secure Lab. Nid ydynt ar gael ar hyn o bryd i'w cysylltu â'r ADSD a gallai'r wybodaeth fod ar gael o ffynonellau eraill.	Gwybodaeth am yr ASHE ar wefan Gwasanaeth Data y DU
Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth (APS)	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol	Mathau o fudd-daliadau sy'n cael eu hawlio, nifer yr ystafelloedd gwely, deiliadaeth, gwybodaeth am yr uned deuluol a'r aelwyd	O leiaf 510 o bobl sy'n weithgar yn economaidd ar gyfer pob Awdurdod Unedol bob blwyddyn o 2004 hyd heddiw (Tua 1% o'r sampl)	Fel gyda data arolygon eraill, ceir mesurau rheoli caeth ar gofnodion aelwydydd unigol. Nid oes unrhyw ddata ar gael ar hyn o bryd i'w cysylltu â'r ADSD a gallai'r wybodaeth fod ar gael o ffynonellau eraill.	Gwybodaeth am yr APS ar wefan Gwasanaeth Data'r DU

Set ddata	Perchennog	Disgrifiad / Newidynnau allweddol	Cwmpas ac Ansawdd y Data (~1.4 miliwn o anheddiadau yng Nghymru)	Cynnydd a Chamau Nesaf	Dolenni Gwe
Data'r Arolwg Integredig o Aelwydydd (IHS) (yn cynnwys yr Arolwg Poblogaeth Blyneddol ar gyfer 2009-2014)	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol	Mae'r arolwg yn cynnwys gwybodaeth am: weithgarwch economaidd, addysg, iechyd ac anabledd, hunaniaeth, incwm	Roedd yr Arolwg Integredig o Aelwydydd (IHS), a gynhaliwyd 2009-2014, yn arolwg cyfansawdd a oedd yn cyfuno cwestiynau a ofynnwyd mewn nifer o arolygon cymdeithasol a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) i gynhyrchu set ddata o newidynnau 'craidd'. Rhoddodd yr ONS y gorau i gynhyrchu setiau data'r Arolwg Integredig o Aelwydydd o 2015 ymlaen	Ddim yn cael ei ddiweddarau mwyach felly nid ydym yn mynd ar drywydd hwn.	Gwybodaeth am yr IHS ar wefan Gwasanaeth Data'r DU
Arolwg Costau Byw a Bwyd	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol	Nodweddion aelwydydd; deiliadaeth; hyd o amser yn y cyfeiriad; ystafelloedd (ac a rennir hwy ag unrhyw un nad yw'n rhan o'r un aelwyd); mesurydd dŵr; cyflenwad nwy; math o wres canolog; band treth gyngor; lles;	Tua 5,000 o aelwydydd yn y DU bob blwyddyn, felly nid yw'n debygol o fod yn nifer uchel ar gyfer Cymru.	Yn sgil lefel isel y cwmpasu a'r tebygrwydd isel o ddata y gellir eu cysylltu, nid aethpwyd ar drywydd y set ddata hon.	Gwybodaeth am yr Arolwg Costau Byw a Bwyd ar wefan Gwasanaeth Data y DU

Atodiad B – Ffynonellau data y mae angen ymchwilio ymhellach iddynt

Set ddata	Perchennog	Disgrifiad / Dolen i'r we
Rhaglen Tai Arloesol	Llywodraeth Cymru	Rhaglen Tai Arloesol
Cronfa ddata diogelwch tân	Llywodraeth Cymru	Cronfa ddata newydd o adeiladau sy'n cael ei datblygu ar gyfer Cymru yn sgil trychineb Grenfell.
Uchder Adeiladau (wedi'i fodelu)	BlueSky	BlueSky
LiDAR – uchder adeiladau	Asiantaeth yr Amgylchedd	Asiantaeth yr Amgylchedd
Cronfa ddata ar allu eiddo i wrthsefyll llifogydd (Property Flood Resilience, PFR-d)	Y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE)	Mae'r PFR-d yn galluogi cofnodi'r mesurau gwrthsefyll llifogydd y mae perchnogion eiddo yn eu gosod mewn cronfa ddata genedlaethol. Cronfa ddata ar allu eiddo i wrthsefyll llifogydd
Data mesuryddion deallus	Cwmnïau ynni	Data mesuryddion deallus
Data lloerennau Sentinel	Yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd	Data lloerennau Sentinel
Y Fargen Werdd	Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS)	Rhoddwyd tua 15,600 o fenthyciadau ar gyfer gwelliannau arbed ynni i gartrefi – daeth y cynllun i ben yn 2015. Y Fargen Werdd
Gosodiadau gwydr dwbl FENSA	FENSA	Cynllun a awdurdodwyd gan y llywodraeth i amnewid ffenestri, drysau, ffenestri to a goleuadau to. FENSA
Data ceisiadau cynllunio	Y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) gyda TerraQuest Cyf.	Ceisiadau cynllunio

Tystysgrifau Diogelwch Nwy	Cofrestr Diogelwch Nwy	Cofrestr Diogelwch Nwy
Gwiriadau Diogelwch Tân	Gwasanaethau Tân ac Achub	Gwybodaeth a gesglir yn rhan o wiriadau diogelwch tân cartrefi.
Y Gwasanaeth Gwybodaeth Tir Cenedlaethol (NLIS)	NLIS	Mae'r NLIS yn darparu un pwynt mynediad electronig i amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth am dir ac eiddo. https://www.nlis.org.uk/
Purple Bricks	Purple Bricks	Gwefan restru / gwerthwr tai Purple Bricks
OnTheMarket	OnTheMarket	Gwefan restru OnTheMarket
PrimeLocation	PrimeLocation	Gwefan restru PrimeLocation

Atodiad C – Cylch Gorchwyl Grŵp Cyngori Technegol yr ADSD

Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai
Grŵp Technegol – Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai
Cylch Gorchwyl

RHEOLAETH AR Y DDOGFEN

Hanes newid

Fersiwn	Awdur	Newid	Dyddiad
0.1	Gowan Watkins	Drafft cyntaf	01/11/2016
0.2	Jenny Davies	Wedi'i ailddrafftio	17/11/2016
0.3	Gowan Watkins	Mân newidiadau cyn dosbarthu gyda gwahoddiadau	19/12/2016
0.4	Jenny Davies	Mân sylwadau gan Sue	27/01/2017
0.5	Mike Ford	Ychwanegiad at yr Aelodaeth	14/12/2017
1.1	Gowan Watkins	Adolygwyd a diweddarwyd i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol/cynnydd ac ati.	15/05/2018

1. Cefndir

Rydym yn mynd i'r afael â bwlch critigol yng ngwybodaeth Llywodraeth Cymru am gyflwr tai yng Nghymru trwy gyfrwng y Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai. Y casgliad cynhwysfawr diwethaf o ddata ar gyflwr tai oedd Arolwg Eiddo Byw yng Nghymru 2008 ac nid yw'r data hyn yn rhoi'r darlun diweddaraf o gyflwr tai yng Nghymru bellach.

Bu i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Tystiolaeth am Gyflwr Tai oruchwyllo'r gwaith o baratoi Achos Cyfiawnhad Busnes manwl ar gyfer gwaith i fynd i'r afael â'r mater hwn. Ym mis Mehefin 2016, cytunodd yr Ysgrifenyddion Cabinet i ariannu'r Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai (HCEP) am dair blynedd [MA-(P)-CS-5488-16] (2016/17 – 2018/19).

Ymhlith elfennau hanfodol y Rhaglen mae:

- Diweddarau amcangyfrifon Tlodi Tanwydd erbyn diwedd 2018.
- Golwg genedlaethol ar gydymffurfiaeth â Safon Ansawdd Tai Cymru ledled pob daliadaeth.
- Golwg genedlaethol ar asesiadau'r System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS) ledled pob daliadaeth.
- 2 ddangosydd cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (cartrefi sy'n rhydd rhag peryglon a chartrefi sydd â mesurau effeithlonrwydd ynni digonol) ac felly bydd yn cyfrannu at waith monitro ehangach ar ein cynnydd fel cenedl tuag at y Nodau Llesiant.
- Helpu i wella'r Parth Tai ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019.
- Dilysu gwaith ar effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio sydd o ddiddordeb penodol i'r gweithgor adeiladau domestig.
- Integreiddio ag Arolwg Cenedlaethol Cymru er mwyn darparu'r cyd-destun cymdeithasol.
- Darparu data ar gyfer llawer o anghenion eraill ym maes tai, effeithlonrwydd ynni, yr amgylchedd a pholisi cymdeithasol.

Ffyniant i Bawb yw rhaglen lywodraethu'r weinyddiaeth hon. Mae'n cynnwys 4 thema a 5 maes blaenoriaeth trawsbynciol. Mae tai yn un o'r meysydd hyn, sy'n cydnabod yr effaith y mae tai yn ei chael ar bob agwedd ar fywyd.

Mae'r Rhaglen yn cwmpasu dau brif brosiect gwaith:

- Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18; ac
- Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru, neu'r ADSD/HSAR fel yr ydym ni'n cyfeirio'n annwyl ato!

Bydd y gwaith o ddatblygu a chyflwyno'r rhaglen yn cael ei wneud mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allanol a byddant hwythau hefyd yn gallu defnyddio'r data i lywio eu gwaith.


2. Diben

Bydd y Grŵp Technegol yn dwyn ynghyd unigolion sydd â'r amser, y diddordeb a'r ymrwymiad i gyfrannu at y gwaith o gyflwyno Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru.

3. Cerrig milltir

Allbwn	Dyddiad cyflawni	Ffynonellau allweddol
Amcangyfrifon cryno ar lefel Cymru ar gyfer newidynnau allweddol yr arolwg	Hydref 2018	Arolwg Cyflwr Tai Cymru
Amcangyfrifon tlodi tanwydd wedi'u modelu ar lefel Cymru	Rhagfyr 2018	Arolwg Cyflwr Tai Cymru, yr ADSD a ffynonellau eraill
Amcangyfrifon wedi'u modelu ar lefel LSOA o newidynnau allweddol dethol o'r arolwg	Haf 2019	Arolwg Cyflwr Tai Cymru, yr ADSD a ffynonellau eraill

4. Strwythur llywodraethu



5. Trosolwg o grwpiau llywodraethu'r Rhaglen

Bwrdd y Rhaglen

Aelodaeth

Uwch Berchennog Cyfrifol (Cadeirydd), Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio, Pennaeth Twf Glân, Dirprwy Gyfarwyddwyr, Noddwr y Rhaglen (Pennaeth Ystadegau EPS), Sicrwydd y Rhaglen (Cyfarwyddwr Awdurdod Refeniw Cymru, Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd), uwch-gynrychiolwyr o gyrff sy'n rhanddeiliaid (CLILC, TCC, ICC), Rheolwr y Rhaglen (Pennaeth y Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai), (Ysgrifenyddiaeth – Tîm HCEP/Ystadegau EPS).

Rôl

- Rhoi sicrwydd i'r Uwch Berchennog Cyfrifol fod y Rhaglen yn parhau i gyd-fynd â'r nod o gyflawni ei hamcanion cyffredinol.
- Sicrhau bod Cyfarwyddwyr is-adrannau sy'n gwsmeriaid allweddol yn cael gwybod am gynnydd, yn gallu herio'r Rhaglen, ymwneud â Gweinidogion fel y bo'n briodol ar sail eu cyfrifoldebau ehangach.
- Deiliaid cyllidebau.
- Darparu llofnod i gymeradwyo ar gyfnodau holl bwysig o'r Rhaglen.

Bwrdd y Prosiect

Aelodaeth

Noddwr y Rhaglen (Cadeirydd), Uwch Ddefnyddwyr, Rheolwr y Rhaglen, Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol, Pennaeth Adeiladu, Swyddog Cynaliadwyedd a Safonau SATC, Uwch Swyddog Ymchwil ar gyfer Tai, Ystadegydd Tai, uwch gynrychiolwyr o gyrff sy'n rhanddeiliaid (CLILC, TCC, ICC), Cadeirydd Grŵp Technegol yr Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai, Tîm y Rhaglen fel y bo angen (ac Ysgrifenyddiaeth).

Rôl

- Sicrhau bod y Rhaglen yn cael ei gyrru ymlaen, gan ddarparu gwybodaeth, cyngor a sicrwydd i'r Uwch Swyddog Ymchwil ar:
 - Faterion a risgiau strategol a thrawsbynciol sy'n effeithio ar y Rhaglen;
 - Effeithiolrwydd cyfathrebu a datblygiad cydweithredol;
 - Rheoli cyllid ac adnoddau;
 - Digonolrwydd ac integriti trefniadau llywodraethu;
 - Cyflawni canlyniadau a buddiannau.

Grŵp Technegol – Arolwg Cyflwr Tai

Aelodaeth

Pennaeth y Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai, Rheolwr Arolwg i Arolwg Tai Lloegr, Pennaeth Tîm Arolwg Cenedlaethol Cymru, Pensaer Llywodraeth Cymru, Uwch-ddarlithydd Tai (Prifysgol Caerdydd), Ystadegydd Iechyd y Cyhoedd, Arolygydd Adeiladau Hanesyddol (CADW), Uwch Swyddog Ystadegol, arweinydd yr Arolwg o Gyflwr Tai (Ysgrifenyddiaeth), arbenigwyr perthnasol yn ôl yr angen.

Rôl

- Cyflwyno cyngor arbenigol diduedd ar faterion technegol a gweithredol trwy gydol contract yr arolwg ac unrhyw waith datblygu arolygon yn y dyfodol.
- Rhoi cyngor ac arweiniad ar ddosbarthu canlyniadau o ran materion yn ymwneud â mesur ansawdd a chadernid wrth roi gwybod am ganlyniadau.
- Cyngori ar benderfyniadau a wneir gan Fwrdd y Prosiect ac/neu Fwrdd y Rhaglen fel y bo angen.

Grŵp Technegol – Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai

Aelodaeth

Fel yr amlinellir yn adran 9 isod, ynghyd ag arbenigwyr perthnasol eraill pan fo angen.

Rôl

- Cyflwyno cyngor arbenigol diduedd ar fethodolegau i'w defnyddio wrth ddatblygu a chynnal Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru.
- Craffu a chynghori ar gynigion ar gyfer cwmplas yr Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru a'r modd y'i darperir.
- Helpu i ganfod ffynonellau tystiolaeth credadwy yn fewnol ac yn allanol er mwyn ategu a chryfhau rôl Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru.
- Cyngori ar benderfyniadau a wneir gan Fwrdd y Prosiect ac/neu Fwrdd y Rhaglen fel y bo angen.

6. Rôl fanwl y Grŵp Technegol

Bydd y Grŵp Technegol yn gweithio ar bynciau o bwys strategol sydd wedi'u pennu gan Fwrdd y Prosiect. Bydd y Grŵp yn darparu fforwm ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a syniadau ymhlith arbenigwyr yn y maes data gweinyddol sy'n gysylltiedig â chyflwr tai ac effeithlonrwydd ynni yn ogystal â chysylltu data.

Rôl y Grŵp Technegol yw canfod a thynnu sylw Bwrdd y Prosiect at unrhyw dasgau ychwanegol a allai fod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau canlyniad penodol. Bydd y Grŵp hefyd yn tynnu sylw Bwrdd y Prosiect at unrhyw broblemau a materion a allai gael effaith andwyol ar gyflawni'r tasgau a ddyrannwyd yn brydlon, megis diffyg adnoddau i gwrdd â therfynau amser, prinder sgiliau mewn meysydd penodol ac ati.

Ni fydd gan Gadeirydd y Grŵp Technegol unrhyw awdurdod ychwanegol i wneud penderfyniadau, ond bydd yn gyfrifol am symud y Grŵp ymlaen i ddatblygu ei argymhellion. Rôl y Cadeirydd yw sicrhau bod yr agenda'n cael ei thrafod a bod holl aelodau'r Grŵp yn cael digon o gyfle i gymryd rhan.

7. Gofynion amser
Disgwylir y bydd y grŵp yn cwrdd unwaith bob chwarter o leiaf, am tua 2 awr, yn ystod camau cwrpasu, datblygu a gweithredu'r Prosiect. Mae'n bosibl y bydd y cyfarfodydd hyn yn digwydd yn llai aml neu ar sail ad hoc wrth i'r prosiect symud i'r cam cynnal a gwella. Mae'n bosibl y gelwir hefyd ar aelodau ar sail ad hoc i roi cyngor, a hynny'n gyffredinol trwy ebost / cynhadledd ffôn, naill ai'n unigol, mewn is-grwpiau neu yn eu cyfanrwydd.

8. Fformat ac amllder y cyfarfodydd
Trefnir cyfarfodydd pan fo hynny'n briodol.

Adran	Rôl
Pennaeth Tîm y Rhaglen Dystiolaeth ar Gyflwr Tai	Rheolwr y Rhaglen a Chadeirydd
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (gwag)	Cynrychiolwyr o gyrff sy'n rhanddeiliaid
Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Unedig Cymru ar ran Cartrefi Cymunedol Cymru	
Iechyd Cyhoeddus Cymru	
Pennaeth Methodoleg y Cyfrifiad a'r Gofrestr Gyfeiriadau, ONS	Cyngor arbenigol
Cynrychiolydd o'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) (gwag)	Cyngor arbenigol
Banc data SAIL (Secure Anonymised Information Linkage)	Cyngor arbenigol
Pennaeth Strategaeth Ddata a Gwybodaeth, VOA	Cyngor arbenigol
Uwch Swyddog Ymchwil, Gwneud y Gorau o Ddata, Llywodraeth Cymru	Cyngor arbenigol
Pennaeth Dadansoddi Data, Awdurdod Cyllid Cymru	Cyngor arbenigol
Pennaeth Daearyddiaeth, Llywodraeth Cymru	Cyngor arbenigol
Pennaeth Technoleg y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, Llywodraeth Cymru	Cyngor arbenigol

Data Cymru	Cyngor arbenigol
Cyfarwyddwr Gweithredol yr Is-adran Gwybodeg, GeoPlace	Cyngor arbenigol
Uwch Swyddog Ystadegol, Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai	Rheolwr y Prosiect